

Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd

30 Tachwedd 2017, 09:30 – 12:00 The Neighbourhood Learning Centre, Folly View, Pen-y-garn Pont-y-pŵl NP4 8BU

Yn bresennol:

Aelodau'r Tasglu

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC (Cadeirydd)

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC

Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Dinas-Ranbarth Caerdydd, Cyn-brif weithredwr BT

Jocelyn Davies, Cyn-ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio

Judith Evans, Pennaeth Coleg y Cymoedd

Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau

Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru

Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

Aelodau Bwrdd y Rhaglen

Tim Howard, Dirprwy Gyfarwyddwr Eiddo

Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr

John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio (Uwch-swyddog Cyfrifol)

David Rosser, Prif Swyddog Rhanbarthol ar gyfer y De-ddwyrain

Tîm Tasglu'r Cymoedd

Deri Ap Hywel, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd

Phil Lewis, Pennaeth Ffyniant i bawb

Lisa Rimmer, Uwch-reolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd (cofnodydd)

Siaradwyr

Ruth Meadows, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cyfathrebu Digidol a Strategol – Arweinydd Prosiect Braenaru

Ruth Studley, Dirprwy Gyfarwyddwr Pontio Cymunedau yn Gyntaf - Arweinydd Prosiect Braenaru

Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau – Arweinydd Prosiect Braenaru

Simon Griffiths, Pennaeth Arloesi Masnachol

Nigel Elias, Rheolwr Rhaglen - Swyddi Gwell yn Nes Adref

Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr – Sgiliau, Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE

David Roberts, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Ymddiheuriadau:

Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel

Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (ARD) aelodau'r tasglu i'r seithfed cyfarfod. Diolchodd i aelodau'r

- tasglu am eu hymrwymiad a'u hamser hyd yn hyn.
2. Nodwyd bod y cynllun cyflawni manwl sy'n ategu 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' wedi cael ei gyhoeddi ar 7 Tachwedd.
 3. Dywedodd ARD y byddai aelodau'r Tasglu Gweinidogol yn parhau'r un fath yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet. Er hynny, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y gallai Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio gyfrannu yn y dyfodol.
 4. O ran llywodraethu, roedd Bwrdd Rhaglen Tasglu'r Cymoedd yn ei le a oedd hefyd yn cyfarfod bob chwarter. Rôl y Bwrdd yw goruchwyllo a chymryd cyfrifoldeb cyfan gwbl dros gyflawni'r camau sydd yn y cynllun.
 5. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (KS) ei fwriad i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Economaidd erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r Cynllun yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y byddwn yn rhoi'r ymrwymadau a nodir yn *Ffyniant i bawb* ar waith. Byddai'r Cynllun yn eang ac yn tynnu ar y mecanweithiau sydd ar gael ar draws y Llywodraeth i annog twf economaidd, ehangu cyfleoedd a hybu llesiant.
 6. Esboniodd KS hefyd y byddai ffocws cryf ar y contract economaidd newydd rhwng busnesau a llywodraeth. Y diben fyddai gwella perthynas y llywodraeth gyda busnesau. Byddai hynny'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o rolau'r naill a'r llall a'r cyfraniad y gall pob parti ei wneud i gyrraedd amcanion a rennir ar gyfer Cymru fwy ffyniannus a diogel. Y bwriad oedd y byddai hyn yn helpu i ysgogi gwerth ychwanegol yn y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i fusnesau.

Eitem 2: Tasglu'r Cymoedd: rolau a threfniadau

7. Cyflwynwyd papur a oedd yn cynnig diweddaru cylch gorchwyl y tasglu ac yn nodi'r cylch gwaith ar gyfer y dyfodol.
8. Tanlinellodd MH rôl bwysig aelodau'r tasglu yn craffu ar waith Llywodraeth Cymru a dwyn swyddogion i gyfrif.
9. Cytunodd LR i rannu'r ddogfen a roddwyd gerbron Bwrdd Rhaglen Tasglu'r Cymoedd yn ddiweddar. Roedd yn amlinellu'r trefniadau adrodd a llywodraethu a sut y mae dwyn swyddogion i gyfrif.

Eitem 3: Canolfannau Strategol a Dangos y Gwaith Mapio

10. Cyflwynodd DH a DR fap electronig a oedd wedi ei lunio. Roedd yn marcio llawer o ymyriadau tasglu'r cymoedd yn ogystal â ffactorau cysylltiedig, fel gwasanaethau gofal iechyd a Meddygon Teulu, prosiectau Bargeinion Dinesig a datblygiadau trafnidiaeth. Lluniwyd y map i annog pobl i feddwl yn fwy strategol. Trafododd y tasglu hyn a gwnaed y prif bwyntiau a ganlyn:
11. Pwysleisiodd ARD mor bwysig oedd hi bod y canolfannau strategol yn adlewyrchu anghenion pob ardal leol, ac y dylid eu datblygu trwy drafodaethau parhaus gyda thrigolion yr ardaloedd lleol hynny.
12. Dewiswyd lleoliadau'r canolfannau ar sail gwaith mapio cynnar a oedd yn dadansoddi ble y byddai modd cael yr effaith fwyaf. Fe'u dewiswyd hefyd ar sail lleoliad a hygyrchedd, gyda bron dri chwarter y bobl a oedd yn byw yn y Cymoedd yn gallu mynd i un o'r lleoliadau ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn 45 munud.
13. Roedd yr awdurdodau lleol yn arwain ar ddatblygu'r canolfannau. Roeddent wedi datblygu rhestr o flaenoriaethau ac wedi gwneud gwaith cychwynnol gyda rhanddeiliaid.

14. Erbyn diwedd mis Ionawr 2018, roedd yn fwriad datblygu cynlluniau bras ar gyfer prosiectau blaenoriaeth i bob un o'r saith rhanbarth. Erbyn mis Ebrill 2018, byddai ffynonellau cyllid ar gyfer y blaenoriaethau wedi eu nodi.
15. Gofynnwyd p'un a ellid defnyddio map tebyg i ragweld symiau canlyniadol. Nododd DR nad oedd wedi ei ddylunio i fod yn offeryn modelu; er hynny, pe cynhelid dadansoddiad arbennig, fe ellir dod dros hynny. Cytunwyd bod angen i'r diben fod yn glir a byddai hynny yn pennu pa setiau data oedd eu hangen a pha rai oedd ar gael. Trafodwyd hygyrchedd ac awgrymwyd y gellid trefnu "hackathon" i brofi pa mor ddiogel yw'r data. Cytunwyd y byddai gallu ychwanegu data ar gyfer y sector preifat yn dda o beth, er y byddai angen cyfyngu ar ba mor agored yw data sensitif penodol. Yn fwy cyffredinol, roedd y tasglu yn teimlo bod datblygu map fel yr un a gyflwynwyd yn rhoi cyfle gwych i ddyfnhau gwaith mewn partneriaeth ar draws rhanbarth y Cymoedd.

Eitem 4: Swyddi Gwell yn Nes Adref

16. Cyflwynodd RG-J bapur a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am Swyddi Gwell yn Nes Adref, gan nodi ei fod yn brif ymrwymiad yn y maniffesto.
17. Cyflwynodd SG bob un o'r pedwar cynllun peilot, a gofynnwyd i aelodau'r tasglu am sylwadau.
18. Croesawyd y gwaith a oedd wedi cael ei wneud hyd yn hyn. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn:
 - sut oedd asesu wedi ei ymgorffori yn y cynlluniau peilot?
 - sut fyddai'r gwaith yn cael ei uwchraddio?
 - pam nad oedd 90% o gontract Trafnidiaeth Cymru wedi ei ymrwymo ar gyfer arwyddion newydd (yn hytrach na 5% o'r holl archebion)?
19. Nododd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (JJ) bod pedwar cynllun peilot yn cael eu cynnal i ddod o hyd i'r hyn sy'n gweithio'n dda, sy'n cadw'r costau'n isel etc. Mae'r 5% y cytunwyd arno gyda Trafnidiaeth Cymru yn cyd-fynd â'r agenda gwaith teg. Nid yw hyn yn ymwneud â chefnogi pobl i gael *unrhyw* swydd.
20. Oherwydd cyfyngiadau amser, anogwyd aelodau'r tasglu i gysylltu'n uniongyrchol â Simon Griffiths os oes ganddynt gwestiynau neu sylwadau pellach.

Eitem 5: Cynlluniau Braenaru'r Cymoedd – themâu sy'n dod i'r amlwg a sylwadau

21. Nododd PL y byddai'r cynlluniau peilot yn dirwyn i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac y byddai llawer o waith adrodd y pryd hwnnw.
22. Cefnogwyd y gwaith gan Cynefin a fyddai yn rhoi newyddiadurwyr i adrodd ar y tri chynllun i fesur newid. Roedd adroddiad i'w gyflwyno yn fuan.
23. Cyflwynodd RM, RS ac AJ, sydd yn gweithio o fewn y tair ardal braenaru, ganfyddiadau cychwynnol.
24. Pwysodd Aelodau'r Tasglu ar y prosiectau braenaru i symud cyn gynted â phosibl i'r cam cyflanwi er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd hyd yn hyn. Cytunwyd y dylai swyddogion roi adroddiad pellach ar ddatblygiad y cynlluniau peilot mewn chwe mis.

Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Sylwadau i Gloi

25. Roedd y cyfarfod nesaf wedi ei amserlennu ar gyfer 12 Chwefror 2018.
26. Unwaith eto, diolchodd ARD i aelodau'r tasglu a'r cyfranwyr eraill am ddod i'r cyfarfod.